# YSGOL BRYNREFAIL

# BETHEL AM BYTH

Tydi Clwb Pêl Droed Bethel ddim yn cael y tymor gorau ohoni. Ond, ar brynhawn Sadwrn ar ddechrau Chwefror, a hithau'n llawer iawn rhy oer i sêr malodus y Cofis a Llanrug gwelwyd tîm pentref Bethel yn brwydro yn erbyn yr oerni a thîm Prifysgol Bangor yng nghwpan Bob Parry.
Fel sydd i ddisgwyl ar y lefel yma nid yw'n ddigon cael eich dewis fel eilydd y mae disgwyl i ti fod yn llumanwr hefyd. Yn ystod yr hanner gyntaf yr oedd Andrew Hughes yn

rhedeg y llinell unig cyn i Hugo Moss lumanu'r ail hanner.
Yn disgwyl yn y cwt eilyddion yr oedd Lloyd Hughes Michael Owen a Darren Jones, cyn disgybl, yn eu cefnogi. Colli to o 4-2 fu hanes y gêm ond da yw gweld yr hogiau yn awyddus i gefnogi'r tîm pentref.

*Hogia Brynrefs – da 'de*